

LLYS OWAIN GLYNDŴR gan Iolo Goch

Llys barwn, lle syberwyd,
Lle daw beirdd aml, lle da byd;
Gwawr Bowys fawr, beues Faig,
Gofuned gwiw ofynaig.
Llyna'r modd a'r llun y mae
Mewn eurgylch dwfr mewn argae:
(Pand da'r llys?) pont ar y llyn,
Ac unporth lle'r ai ganpyn;
Cyplau sydd, gwaith cwplws ŷnt,
Cwpledig pob cwpl ydynt;
Clochdy Padrig, Ffrengig ffrwyth,
Clostr Westmustr, clostir esmwyth;
Cynglynrhwym pob congl unrhyw,
Cangell aur, cyngan oll yw;
Cynglynion yn fronfron fry,
Dordor megis deardy,
A phob un fal llun llyngwlm
Sydd yn ei gilydd yn gwlm;
Tai nawplad fold deunawplas,
Tai pren glân mewn top bryn glas;
Ar bedwar piler eres
Mae'i lys ef i nef yn nes;
Ar ben pob piler pren praфф
Llofft ar dalgrofft adeilgraff,

A'r pedair llofft o hoffter,
Yn gydgwplws lle cwsgr clêr;
Aeth y pedair disgleirlofft,
Nyth lwyth teg iawn, yn wyth loft;
To teils ar bob tŷ talwg,
A simnai lle magari'r fwg.
Naw neuadd gyfladd gyflun,
A naw gwardrob ar bob un,
Siopau glân glwys cynnwys cain,
Siop lawndeg fal Siêp Lundain;
Croes eglwys gylchlwys galchliw,
Capelau â gwydrau gwiw;
Poptu llawn poptu i'r llys,
Perllan, gwinllan ger gwenllys;
Melin deg ar ddifreg ddŵr,
A'i golomendy gloyw maendwr;
Pysgodlyn, cudduglyn cau,
A fo rhaid i fwrw rhwydau;
Amlaf lle, nid yr ymliw,
Penhwyaid a gwyniaid gwiw,
A'i dir bwrdd a'i adar byw,
Peunod, crehyrod hoywryw;
Dolydd glân gwyran a gwair,
Ydau mewn caeau cywair,
Parc cwning ein pŵr cenedl,
Erydr a meirch hydr, mawr chwedl;

Gerllaw'r llys, gorlliwio'r llall,
Y pawr ceirw mewn parc arall;
Ei gaith a wna bob gwaith gwiw,
Cyfreidiau cyfar ydiw,
Dwyn blaendrwyth cwrw Amwythig,
Gwirodau bragodau brig,
Pob llyn, bara gwyn a gwin,
A'i gig, a'i dân i'w gegin;
Pebyll y beirdd, pawb lle bo,
Pe beunydd, caiff pawb yno;
Tecaf llys bren, pen heb bai,
O'r deyrnas, nawdd Duw arnai;
A gwraig orau o'r gwragedd,
Gwyn fy myd o'i gwin a'i medd!
Merch eglur llin marchoglyw,
Urddol hael anional yw;
A'i blant a ddeuant bob ddau,
Nythaid teg o benaethau.
Anfynych iawn fu yno
Weled na chlicied na chlo,
Na phorthoriaeth ni wnaeth neb,
Ni bydd eisiau, budd oseb,
Na gwall na newyn, na gwarth,
Na syched fyth yn Sycharth.
Gorau Cymro, tro trylew
Piau'r wlad, lin Pywer Lew,

Gŵr meingryf, gorau mangre,
A phiau'r llys; hoff yw'r lle.